**Grŵp Llywio Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru**

**Dydd Iau 17 Hydref, 2019**
**Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Merthyr Tudful**

**Cofnodion y Cyfarfod**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd** | |
| Nigel Moss | Llywodraeth Cymru – Pennaeth Cynhwysiant Ariannol a Digidol |
| **Aelodau** | |
| Helene Hayes | Cyngor ar Bopeth Cymru |
| Lee Phillips | Y Gwasanaeth Arian a Phensiynau |
| Graham Roberts | Adran Gwaith a Phensiynau |
| George Jones | Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn |
| Liz Emmons | Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru |
| Leanne Herberg | Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro |
| John Mason | Adran Addysg Llywodraeth Cymru |
| Sally Hunt | Dyfodol Ffyniannus Llywodraeth Cymru |
| Julia Griffiths | Ieuenctid Cymru |
| **Llywodraeth Cymru** | |
| Paul Neave | Cynhwysiant Ariannol |
| JJ Costello | Cynhwysiant Ariannol |
| Charlotte Anscombe | Cynhwysiant Ariannol |
| Clar Diamond | Cynhwysiant Ariannol |
| **Ymddiheuriadau:** | |
| Maureen Howell | Llywodraeth Cymru - Dirprwy Gyfarwyddwr Dyfodol Ffyniannus |
| Sian Williams | Llywodraeth Cymru - Ymchwil |
| Clarissa Corbisiero | Cartrefi Cymunedol Cymru |
| Wil Atkinson | Cartrefi Cymunedol Cymru |
| Jonathan Brenchley | Banc Barclays |
| Lisa Hayward | CLlLC |
| Sean O'Neill | Plant yng Nghymru |
| Jocelle Lovell | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Claire Savage | Undeb Credyd Cymru |
| Geraint Willington | Consortiwm Addysg |

1. **Croeso, Cyflwyniadau, Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf a Rhestr o'r Camau Gweithredu**

   Croesawodd Nigel Moss (NM) yr aelodau ac fe gyflwynwyd yr aelodau gan fod NM yn bresennol yn y Grŵp Llywio Cynhwysiant Ariannol am y tro cyntaf.

   Cytunodd pawb bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir.

   Camau Gweithredu - cyflawnwyd pob un o'r camau gweithredu ond un.
   Mae'r cam gweithredu sy'n weddill yn cyfeirio at y posibilrwydd o gyfuno Fforwm Cymru'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS) a'r Grŵp Llywio Cynhwysiant Ariannol (y Grŵp) - bydd hyn yn cael ei drafod ymhellach yn y cyfarfod MaPS nesaf y disgwylir ei gynnal yn y Flwyddyn Newydd. Gofynnodd NM i'r aelodau roi eu barn ar fformat y Grŵp ar gyfer y dyfodol.

**Cam Gweithredu 1.0:** aelodau i gyflwyno unrhyw awgrymiadau ar aelodaeth a'r trefniadau gweithredu ar gyfer y ddau grŵp yn y dyfodol.

2. **Diweddariad am y Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS)**
Briffiodd Lee Phillips (LP) y grŵp am uno'r Gwasanaethau Cynghori Ariannol, y Gwasanaethau Cynghori ar Bensiynau a Pension Wise, sydd bellach yn cael ei adnabod fel y Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS), corff hyd braich oddi wrth y DWP sy'n cael ei ariannu drwy ardollau ar y diwydiant gwasanaethau ariannol a chynlluniau pensiwn.

Gwyliodd y Grŵp fideo byr wedi'i baratoi gan MaPS a oedd yn dathlu cynnwys addysg ariannol yn y cwricwlwm newydd sydd wedi'i gynnwys ym mlog cwricwlwm Llywodraeth Cymru. Mae'r fideo ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:
https://curriculumforwales.gov.wales/2019/06/19/the-money-advice-service-says-yes/

Darparodd Lee'r wybodaeth ddiweddaraf am nifer o ddigwyddiadau / prosiectau sy'n mynd rhagddynt wedi'u hariannu gan MaPS, gan gynnwys:

- Siarad, Dysgu, Gwneud - ymyriad gallu ariannol sy'n ceisio annog rhieni plant 3-11 oed i siarad gyda'u plant am arian a chreu cyfleoedd i blant gael profiad o'i reoli. Cadarnhaodd LP y bydd digwyddiadau hyfforddi gallu ariannol yn cael eu cynnal ym mis Tachwedd / Rhagfyr, a gofynnodd i'r aelodau rannu hyn gyda'r rhanddeiliaid. Bydd rhain yn rhad ac am ddim.

**Cam Gweithredu 2.1:** LP i gyflwyno gwybodaeth am ddigwyddiadau hyfforddi Siarad, Dysgu, Gwneud i'r Ysgrifenyddiaeth i'w dosbarthu i'r Grŵp a rhanddeiliaid ehangach.

- Prosiect Money Mentor - darparu cyllid ar gyfer hyfforddi ymarferwyr iechyd meddwl yng Nghymru i nodi materion ariannol sy'n codi gyda'u cleifion/cleientiaid.

- Bydd Wythnos Siarad Arian, Siarad Pensiynau (Wythnos Siarad Arian gynt) yn cael ei chynnal o ddydd Llun 18 Tachwedd 2019. Gofynnodd LP i'r aelodau aildrydar a rhannu gwybodaeth er mwyn helpu i'w hyrwyddo ledled Cymru. Gohiriwyd.

**Cam Gweithredu 2.2:** Aelodau'r Grŵp i aildrydar a rhannu gwybodaeth i helpu i hyrwyddo Wythnos Siarad Arian, Siarad Pensiynau o ddydd Llun 18 Tachwedd ymlaen.

Rhannodd LP ffeithlun o adroddiad y Pwyllgor Craffu ar yr Economi a Seilwaith a gyhoeddwyd ar 17 Hydref 2019.

3. **Cronfa Ymddiriedolaeth Plant (CTF)**
Trafodwyd CTF gyda NM yn egluro'r cyd-destun i'r eitem hon ar yr agenda, sef bod angen codi ymwybyddiaeth ymysg pobl ifanc, yn arbennig y rhai y mae eu CTF ar fin aeddfedu, er mwyn cefnogi gallu ariannol pobl ifanc ymhellach. Cytunwyd ar nifer o gamau gweithredu:

**Cam Gweithredu 3.1:** Tîm Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru i gynnal archwiliad mewnol yn adrannau eraill Llywodraeth Cymru i weld os oes rhywbeth yn cael ei wneud i godi ymwybyddiaeth.

**Cam Gweithredu 3.2:** Llywodraeth Cymru i gynnal ymarfer allanol tebyg i weld beth sy'n digwydd yn y gweinyddiaethau datganoledig eraill ac a oes rhywbeth yn digwydd ar lefel y DU.

**Cam Gweithredu 3.3:** Julia Griffiths (JG) yn Ieuenctid Cymru - ar hyn o bryd yn cynnal ymgynghoriad/ymchwil ar brosiect arall, ond yn cynnig gweld os oes cyfle i gynnwys cwestiynau ar ymwybyddiaeth CTF gyda phobl ifanc.

**Cam Gweithredu 3.4:** JG i edrych ar gynnwys CTF mewn prosiect sydd eisoes yn cael ei gynnal.

**Cam Gweithredu 3.5:** Helene Hayes (HH) Cyngor ar Bopeth - i ofyn am ymwybyddiaeth ynghylch CTF ymysg rhanddeiliaid mewn 3 Fforwm Gallu Ariannol a gynhelir ledled Cymru, dair gwaith y flwyddyn.

**Cam Gweithredu 3.6:** Cynhwysiant Ariannol / Cynhwysiant Digidol Llywodraeth Cymru - awgrymwyd ymgyrch ddigidol i hyrwyddo CTF i bobl ifanc ac edrych ar yr hyn sydd eisoes yn hysbys. Tynnwyd sylw at Promo Cymru fel y sefydliad mwyaf priodol yn sgil natur eu gwaith.

**Cam Gweithredu 3.7:** John Mason (JM), Addysg Llywodraeth Cymru - i drafod gyda chydweithwyr y posibiliadau o gael gwybodaeth allan i ysgolion, ond hefyd i ystyried goblygiadau ehangach i'r sector Addysg, fel dysgu proffesiynol i athrawon / datblygiad proffesiynol parhaus / ymwybyddiaeth (nodwyd bod rhan Iechyd a Llesiant newydd y cwricwlwm newydd yn cynnwys thema ar wneud penderfyniadau effeithiol, sy'n cynnwys dangosyddion perfformiad allweddol llythrennedd ariannol).

**Cam Gweithredu 3.8:** Aelodau'r Grwp i ystyried unrhyw bartneriaid posib.

**Cam Gweithredu 3.9:** Cafwyd awgrym yn ymwneud â gwybodaeth o fewn llythyrau Yswiriant Gwladol a anfonir at blant 15 oed - Tîm Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru i edrych ar hyn.

4. **Gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru**

Data yn ymwneud â budd-daliadau'r Gronfa Cymorth Dewisol (DAF), cam gweithredu 6 o'r cyfarfod diwethaf – darparodd Charlotte Anscombe (CA) ddata rhwng mis Ebrill 2017 a mis Awst 2019 ynghylch nifer y bobl a ddywedodd mai problemau budd-daliadau oedd y prif reswm dros ofyn am daliad cymorth brys gan DAF. Nodwyd bod y galw wedi cynyddu yn dilyn cyflwyno Credyd Cynhwysol, gyda bron i 4,000 yn fwy o ddyfarniadau yn 2018-19 o gymharu â 2017-18, sy'n dros £200,000 o wariant ychwanegol gyda'r galw yn parhau i gynyddu. Drwy gymharu â misoedd Awst blaenorol, gwelir y cynnydd mewn dyfarniadau lle mai problemau budd-daliadau oedd y rheswm dros y cais:

| Awst 2017 | Awst 2018 | Awst 2019 |
|---|---|---|
| 867 | 1,156 | 1,386 |

Bydd DAF yn parhau i fonitro'r galw i bobl sy'n gwneud ceisiadau yn sgil materion yn ymwneud â budd-daliadau.

Rhoddodd Paul Neave (PN) yr wybodaeth ddiweddaraf am feysydd o fewn y sector cynghori nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cyflawni, gan gynnwys Breathing Space.

Rhoddodd NM yr wybodaeth ddiweddaraf am y paratoadau ar gyfer Brexit, gan hysbysu am y trafodaethau sy'n mynd rhagddynt o fewn Llywodraeth Cymru ynghylch nodi DAF fel ffordd o ddarparu taliadau brys os bydd Brexit yn digwydd heb gytundeb. Dywedodd NM wrth y Grwp fod Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar Brexit wedi'i gyhoeddi a'i fod ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

5. **Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Ariannol - y diweddaraf**

Diolchodd NM i bawb oedd wedi darparu diweddariad cyn y cyfarfod a gofynnodd i'r aelodau roi eu barn ar drefn bresennol Llywodraeth Cymru ar gyfer casglu'r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynllun cyflawni. Awgrymwyd y dylai'r Cynllun Cyflawni fod yn ddogfen fyw sy'n cael ei rhannu gydag aelodau i'w diweddaru fel bo angen, yn hytrach na thair gwaith y flwyddyn.

**Cam Gweithredu 5.1:** Llywodraeth Cymru i ystyried gwneud y Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Ariannol yn ddogfen fyw i'w rhannu ag aelodau.

Ar 17 Hydref 2019, cyhoeddodd Trysorlys ei Mawrhydi eu bod yn ariannu cyfrif Prize Saver drwy Undebau Credyd. Undeb Credyd Merthyr yw'r unig Undeb Credyd yng Nghymru i'w gynnwys yn y cynllun. CA i ofyn am nifer yr aelodau sy'n tanysgrifio i'r cyfrif.

**Cam Gweithredu 5.2:** Llywodraeth Cymru i ofyn am nifer yr aelodau sy'n tanysgrifio i gyfrifon Prize Saver Trysorlys ei Mawrhydi drwy Undeb Credyd Merthyr.

Rhoddodd JC drosolwg o'r Rhwydweithiau Cynghori. Disgwylir cyfarfodydd llawn yn ystod mis Tachwedd a Rhagfyr.

**Cam Gweithredu 5.3:** Aelodau i hysbysu CD os am gael eu cynnwys ar restr ddosbarthu'r rhwydwaith.

6. **Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Cyfarfod nesaf i'w drefnu ar gyfer mis Chwefror 2020, ac i gynnwys Strategaeth MaPS - Cynllun Cyflawni Cymru fel eitem ar yr agenda.

Argymhellodd NM y dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru Cylch Gorchwyl y Grŵp.

**Cam Gweithredu 6.1:** Llywodraeth Cymru i ddrafftio ac anfon Cylch Gorchwyl at yr aelodau.

Gofynnodd Liz Emmons (LE) i Lywodraeth Cymru anfon gwahoddiad ymlaen at yr holl aelodau i Ddigwyddiad Diogelu rhag Camdriniaeth Ariannol Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru.

**Cam Gweithredu 6.2:** LE i anfon gwahoddiad i Ddigwyddiad Diogelu rhag Camdriniaeth Ariannol Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru i'r Ysgrifenyddiaeth i'w ddosbarthu i aelodau'r Grŵp.

Dywedodd Helene Hays (HH) wrth y Grŵp am declyn Brexit Cyngor ar Bopeth sydd ar gael ar-lein i roi cyngor ar Fewnfudo, Budd-daliadau a materion Defnyddwyr. Hefyd soniodd am y cwsmer cudd diweddar ar gyfer Swyddfeydd Post. HH i ddosbarthu teclyn Brexit Cymorth ar Bopeth a gwybodaeth am gwsmer cudd y Swyddfeydd Post i aelodau'r Grŵp.

**Cam Gweithredu 6.3:** HH i gyflwyno teclyn Brexit Cymorth ar Bopeth a gwybodaeth am gwsmer cudd y Swyddfeydd Post i'r Ysgrifenyddiaeth.

**Cam Gweithredu 6.4:** Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu deunydd 6.2 i aelodau'r Grŵp.